Sut i wneud cais

Os ydych yn dymuno gwneud cais am uned, darllenwch y Cwestiynau Cyffredin canlynol yn:

Pwy sy'n gallu gwneud cais?

Darperir yr unedau diwydiannol i gynorthwyo busnesau ac, felly, economi leol yr ardal gyfagos. O ganlyniad, ni chaiff ceisiadau eu hystyried gan unigolion sydd am eu defnyddio at ddibenion preifat e.e. storio eitemau cartref, garej preifat etc.

Sut gallaf weld eiddo?

Yn gyntaf, argymhellwn i chi edrych ar y tu allan i'r eiddo i sicrhau y byddai'r lleoliad yn addas ar gyfer eich busnes.
Cyn bod modd trefnu apwyntiad am weld y tu mewn i eiddo, mae angen i fusnesau newydd gyflwyno cynllun busnes o'u menter arfaethedig. Bydd gofyn i fusnesau sefydledig ddarparu llythyr ynghylch y bwriad, gan amlinellu'r wybodaeth am y busnes, h.y. faint o swyddi fydd yn cael eu creu. Pa brofiad sydd gennych? Am faint mae'ch busnes wedi gweithredu? Etc.
Derbynnir ceisiadau neu ymholiadau drwy e-bost, yn ysgrifenedig neu drwy gwblhau'r ffurflen Cysylltu â Ni ar-lein.

Faint yw'r trethi busnes?

Byddwch yn gyfrifol am dalu trethi busnes ar wahân i'r cyngor. Gallwch gyfrifo'r dreth ar wefan Asiantaeth y Swyddfa Werthuso neu drwy gysylltu ag Is-adran Trethi Annomestig y cyngor ar 01639 764328

Beth yw'r taliadau/ffioedd?

Cofiwch, fel tenant masnachol, y byddwch yn gyfrifol am nifer o gostau sy'n ymwneud â llety sy'n ychwanegol i'r costau gweithredu pob dydd arferol.

Dyma'r costau nodweddiadol:

- Rhent / Ffi Trwydded
  Byddwch yn gyfrifol am dalu rhent i'r cyngor am y safle rydych yn ei ddefnyddio. Dylid talu pob taliad fel a nodir yn eich cytundeb prydles neu denantiaeth ac, fel arfer, dylid talu'r rhain bob mis ymlaen llaw. Fel arfer, defnyddir debyd uniongyrchol i wneud y taliadau hyn.

- Yswiriant
  Mae'r cyngor yn yswirio'r safle, gyda'r tenant yn ad-dalu'r premiwm. Fodd bynnag, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr yswiriant yn ddigonol ar eich cyfer chi, a threfnu yswiriant ychwanegol, os bydd angen, ac yswiriant cynnwys.

- Taliadau Gwasanaethau
  Y rhai sydd fel arfer yn berthnasol i adeiladau masnachol. Os byddant yn berthnasol, byddant wedi'u nodi yn eich prydles, a gallent gynnwys gwasanaethau megis atgweiriadau, glanhau, diogeledd etc.

Am Fwy o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch: Richard Ford, Eiddo ac Adfywio,

Y Ceiau, Ffordd Brunel, Parc Ynni Baglan,

Castell-nedd, SA11 2GG

01639 686694 / r.ford@npt.gov.uk

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol